

## **2012 Rhif 37**

### **Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Uwch) (Cymru) 2012/2013**

#### **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)*

Mae'r Cynllun hwn yn darparu cyllid i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru at ddiben sefydlu cronfeydd yn ôl disgresiwn i ddarparu taliadau brys i fyfyrwyr cymwys mewn cysylltiad ag argyfyngau annisgwyl; a chynorthwyo mewn achosion lle y gallai myfyriwr cymwys fod yn ystyried gadael addysg uwch oherwydd problemau ariannol. Mae'n rhoi gwybodaeth i sefydliadau addysg uwch am bolisi a'r trefniadau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chyllid o'r fath, ac mae'n gosod gofynion mewn cysylltiad â'r trefniadau hynny.

Mae'r Cynllun hwn yn dod i rym ar 1 Medi 2012, ac mae'n gymwys mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd sy'n cychwyn ar 1 Medi 2012 ac sy'n dod i ben ar 31 Awst 2013.

Mae'r Cynllun hwn yn disodli unrhyw Delerau ac Amodau blaenorol a osodwyd gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â chyllid i sefydliadau addysg uwch at ddiben Cronfeydd Caledi neu Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn, ond dim ond mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol 2012/2013.

## 2012 Rhif 37

### Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Uwch) (Cymru) 2012/2013

#### RHAN 1 - CYFFREDINOL

##### Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Uwch) (Cymru) 2012/2013.
2. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2012 ac mae'n gymwys o ran y cyfnod 1 Medi 2012 i 31 Awst 2013 (yn gynhwysol). Mae'r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru.

##### Dehongli

3. Yn y Cynllun hwn—

ystyr “Lwfans Myfyriwr Anabl” (“*DSA*”) yw'r lwfans sy'n daladwy o dan Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2011, Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011, neu lwfans cyfatebol o dan y cynllun cymorth i fyfyrwyr a ariennir gan y llywodraeth sy'n briodol i'r myfyriwr cymwys neu'r ddeddfwriaeth sy'n briodol iddo;

ystyr “modiwl blas i israddedigion” (“*undergraduate taster module*”) yw modiwl i israddedigion mewn cwrs addysg uwch –

- (a) sydd naill ai'n arwain at gymhwyster addysg uwch neu sy'n sefyll ar ei ben ei hun ac nad yw'n arwain at gymhwyster o'r fath;
- (b) sy'n gyfwerth ag o leiaf 10% neu 12 credyd o gwrs llawnamser; ac
- (c) sy'n gyfwerth â llai na 50% o gwrs llawnamser;

ystyr “Sefydliad” (“*Institution*”) yw Sefydliad yn y sector addysg uwch yng Nghymru;

ystyr “taliad benthyciad” (“*loan payment*”) yw benthyciad a delir o dan Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2011, Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 neu o dan y cynllun cymorth cyfatebol i fyfyrwyr a ariennir gan y llywodraeth sy'n briodol i'r myfyriwr cymwys neu'r ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n briodol iddo.

## **Diwygio**

4. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r darpariaethau yn y Cynllun hwn, eu dirymu neu ychwanegu atynt unrhyw bryd.

## **Cyngor ariannol**

5. Mae darparu cyngor ariannol i fyfyrwyr yn rhan allweddol o sicrhau bod y Cynllun hwn yn cael ei weithredu'n effeithiol.

6. Mae'r 'Cynllun Meddygon Arian' yn annog myfyrwyr ifanc sy'n mynd i brifysgol, ac sy'n gorfod meddwl o ddirif am arian am y tro cyntaf, a myfyrwyr aeddfed hefyd, y gallai fod arnynt angen cymorth i reoli dyledion, i feithrin ymwybyddiaeth ehangach o faterion ariannol.

7. Dylai fod gan bob Sefydliad gopi o'r Pecyn Adnoddau Meddygon Arian (*Money Doctors' Toolkit*), ond gellir cael gafael ar gopi drwy wefan Cymdeithas Genedlaethol Cyngorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA): <http://www.nasma.org.uk>

Dylai gweinyddwyr fod yn ymwybodol y gallai rhai myfyrwyr Mwslimaidd boeni pe bai gofyn iddynt arfer eu hawlogaeth i gael benthyciad i fyfyrwyr. Mewn achosion o'r fath, efallai y byddai'n ddefnyddiol pe byddai gweinyddwyr yn cyngori myfyrwyr i fynd i wefan Ffederasiwn Cymdeithasau Islamaidd Myfyrwyr (FOSIS) yn: <http://www.fosis.org.uk> i gael gwybodaeth a chyngor. Mae'n siŵr y bydd gweinyddwyr hefyd yn ymwybodol o'r ffaith bod llawer o fanciau yn y DU yn cynnig cyfrifon banc personol sy'n ymdrin â threfniadau bancio yn unol â chyfraith Sharia.

## **RHAN 2 – DIBENION Y CYNLLUN**

### **Grwpiau â blaenoriaeth**

8. Rhaid i Sefydliadau roi blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n dod o fewn un neu ragor o'r grwpiau â blaenoriaeth a nodir ym mharagraff 9.

9. Y grwpiau â blaenoriaeth o safbwynt cael cymorth o dan y Cynllun hwn yw'r myfyrwyr cymwys canlynol:

(1) myfyrwyr â phlant;

(2) myfyrwyr sydd ag ymrwymadau ariannol hanfodol eisoes, gan gynnwys dyledion â blaenoriaeth (gweler paragraff 14).

(3) myfyrwyr anabl, yn enwedig myfyrwyr nad yw eu Lwfans Myfyriwr Anabl yn gallu talu costau penodol, ac nad yw'r Sefydliad yn gorfod talu'r costau hynny ychwaith;

(4) y sawl sy'n gadael gofal;

(5) myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf sydd mewn trafferthion ariannol, gan gynnwys y rheini sy'n methu ag ymgymryd â gwaith am dâl oherwydd pwysau academaidd;

(6) myfyrwyr sy'n byw mewn llety Foyer a myfyrwyr digartref eraill; a

(7) myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2011, nac o dan y cynllun cymorth cyfatebol i fyfyrwyr a ariennir gan y llywodraeth sy'n briodol i'r myfyriwr cymwys neu'r ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n briodol iddo, ond bydd yn rhaid i fyfyrwyr o'r fath allu dangos eu bod wedi gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer costau byw gydol eu cwrs.

### **Y dibenion y caniateir i daliadau gael eu defnyddio ar eu cyfer**

**10.** Rhaid sicrhau mai dim ond ar gyfer y dibenion a nodir yn y Cynllun hwn y defnyddir y taliadau a wneir i fyfyrwyr yn rhinwedd y Cynllun hwn.

### **Cyffredinol**

**11.** Rhaid i unrhyw gyllid a roddir i Sefydliad yn rhinwedd y Cynllun hwn gael ei ddefnyddio at ddiben darparu cyllid i fyfyrwyr cymwys y gallai ystyriaethau ariannol fod yn eu rhwystro rhag cael mynediad at addysg uwch, neu fyfyrwyr cymwys sydd, am ba reswm bynnag, yn wynebu caledi ariannol sy'n gysylltiedig â'u costau byw. Ni chaniateir i Sefydliad ddarparu cyllid mewn cysylltiad â ffioedd dysgu myfyriwr cymwys mewn unrhyw amgylchiadau, ar wahân i'r rheini a nodir ym mharagraffau 14 ac 16.

### **Costau sy'n deillio o anableddau**

**12.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau at ddiben helpu myfyrwyr cymwys anabl a myfyrwyr cymwys sydd â phobl anabl sy'n ddibynnol arnynt. Mae taliadau o'r fath yn cynnwys y rhai mewn cysylltiad â chostau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r anabledd, na chânt eu talu gan y Lwfans Myfyriwr Anabl, er enghraifft, costau mewn cysylltiad â phrawf diagnostig rhagarweiniol neu offer penodol, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r taliadau hynny. Os yw'r Sefydliad wedi prynu offer ar gyfer myfyriwr anabl o dan y Cynllun hwn, dylai'r offer hynny barhau'n eiddo i'r Sefydliad fel rheol.

### **Costau cyrsiau**

**13.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys at ddiben helpu i dalu costau eu cyrsiau. Mae

costau o'r fath yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â gofal plant, teithio, llyfrau a theithiau maes, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r costau hynny. Nid yw costau cyrsiau yn cynnwys ffioedd dysgu y dylid gweld paragraffau 14 ac 16 isod mewn cysylltiad â hwy.

### **Costau eithriadol**

**14.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys at ddiben helpu i dalu eu costau eithriadol. Mae costau o'r fath yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwaith atgyweirio offer hanfodol yr aelwyd, sefyllfaoedd argyfyngus (gan gynnwys costau teithio sy'n ymwneud â phrofedigaeth neu salwch yn y teulu, a chaledi oherwydd bwrgleriaeth neu dân) a chymorth gyda dyledion â blaenoriaeth (sef dyledion lle y byddai methu â thalu'n golygu bod gan y credydwr hawl i amddifadu'r dyledwr o'i gartref neu nwyddau neu wasanaethau hanfodol; felly nid ydynt yn cynnwys y costau yr eir iddynt ar ffurf gorddrafft banc neu drwy gardiau credyd), ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r costau hynny.

### **Costau byw**

**15.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys at ddiben helpu i dalu eu costau byw tra byddant yn dilyn cwrs addysg uwch. Mae costau o'r fath yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â rhent, taliadau morgais, bwyd, biliau cyfleustodau, dillad a golchi dillad, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r costau hynny, a chânt gynnwys costau yr eir iddynt yn ystod gwyliau'r haf yn ogystal ag yn ystod y tymor.

### **Myfyrwyr rhan-amser – Ffioedd dysgu**

**16.** Caiff Sefydliadau ddarparu cymorth ychwanegol at ffioedd ar gyfer myfyrwyr cymwys rhan-amser ag incwm isel, y mae'r cymorth arall a gânt at ffioedd yn annigonol i dalu'r ffioedd dysgu yn llawn, yn enwedig mewn amgylchiadau lle y byddai'r caledi ariannol a fyddai'n dilyn yn atal myfyriwr rhag cael mynediad at addysg uwch a pharhau mewn addysg uwch.

### **Modiwlau blas i israddedigion – costau cyrsiau a ffioedd dysgu**

**17.** Rhaid bod modiwl blas y caiff myfyriwr cymwys gael cymorth ar ei gyfer o dan y Cynllun hwn yn fodiwl cwrs addysg uwch i israddedigion.

**18.** Caiff Sefydliadau gynnig cymorth o dan y Cynllun hwn mewn cysylltiad â'r ffioedd a godir ar gyfer un modiwl blas i israddedigion neu un flwyddyn academaidd o fodiwl blas i israddedigion, gan ddibynnu p'un o'r ddau gyfnod hwnnw yw'r byrraf. Gellid darparu cymorth cyfyngedig hefyd ar gyfer

costau sy'n gysylltiedig â chyrsgiau, megis llyfrau neu deithio.

**19.** Os bydd myfyriwr cymwys yn astudio modiwl blas, ac os bydd yn ystod yr un flwyddyn academaidd yn trosglwyddo'r credydau hynny i flwyddyn gyntaf cwrs rhan-amser, dylai'r Sefydliad sicrhau nad yw cyfanswm y ffioedd a geir ar gyfer y flwyddyn astudio academaidd honno, o'r Gronfa a'r cymorth ffioedd dysgu rhan-amser statudol, yn fwy na'r ffioedd a godir gan Sefydliadau ar gyfer myfyrwyr a gofrestrodd yn uniongyrchol ar y cwrs rhan-amser.

## RHAN 3 – CYMHWYSTRA

### **Myfyrwyr a chyrsgiau cymwys**

**20.** Rhaid bod myfyrwyr cymwys wedi ymchwilio i bob ffynhonnell gyllid arall, gan gynnwys cyllid cyhoeddus, ac wedi gwneud cais am gyllid o'r ffynonellau hynny, cyn y gellir ystyried cais o dan y Cynllun hwn.

**21.** Dim ond i fyfyrwyr cymwys y caniateir gwneud taliadau o dan y Cynllun hwn.

**22.** Mae myfyriwr cymwys yn fyfyrwr sydd, ym marn y Sefydliad (a) yn dod o fewn un o'r categorïau a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Cynllun hwn; a (b) yn dod o fewn un o'r categorïau yn is-baragraffau (1) i (3) isod.

(1) Myfyrwyr israddedig: Myfyrwyr llawnamser neu ran-amser, gan gynnwys dysgwyr o bell, sy'n dilyn cwrs addysg uwch neu'n ymgymryd ag unrhyw gyfnodau lleoliad gwaith neu'n astudio ar gyrsgiau graddau sylfaen. Mae myfyrwyr sy'n astudio am y blynyddoedd sylfaen sy'n rhan annatod o gwrs i israddedigion, a lle nad oes modd symud ymlaen i'r rhan o'r cwrs sydd yn y sector addysg uwch oni chwblheir y flwyddyn honno, hefyd yn gymwys i wneud cais am gymorth o dan y Cynllun hwn.

(2) Myfyrwyr ôl-raddedig: Myfyrwyr llawnamser neu ran-amser sy'n dilyn cwrs addysg uwch ar lefel uwchlaw lefel gradd gyntaf, sy'n para o leiaf un flwyddyn academaidd. Gallent gynnwys, fel y gwêl y Sefydliad yn ddoeth, y rheini sy'n ysgrifennu eu traethodau ymchwil am gyfnod hyd at chwe mis ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer cofrestru ar gwrs, ac nad ydynt yn mynychu'r Sefydliad felly.

(3) Myfyrwyr addysg bellach: Myfyrwyr llawnamser neu ran-amser sy'n dilyn cwrs addysg bellach mewn sefydliad addysg uwch, gan gynnwys cyrsiau rhyngosod ac unrhyw gyfnodau lleoliad gwaith.

**23.** Ni all myfyriwr cymwys gael cymorth o dan y Cynllun hwn, ar wahân i gymorth at ffioedd dysgu a allai fod ar gael o dan baragraff 14 neu baragraff 16, os yr unig baragraff yn Rhan 2 o'r Atodlen sy'n berthnasol i'r myfyriwr cymwys yw paragraff 9.

**24.** Caiff Sefydliadau dderbyn mwy nag un cais gan fyfyrwr cymwys am gyllid o dan y Cynllun hwn, ond fel rheol dim ond pan fydd y myfyriwr cymwys yn gwneud cais am gymorth yn ystod gwyliau'r haf.

## **RHAN 4 – MATHAU O DALIADAU**

### **Grantiau**

**25.** Caiff Sefydliadau ddarparu cyllid i fyfyrwyr cymwys ar ffurf grantiau.

### **Benthyciadau byrdymor**

**26.** Caiff Sefydliadau ddarparu cyllid i fyfyrwyr cymwys ar ffurf benthyciadau byrdymor. Caniateir i fyfyrwyr cymwys gael benthyciad byrdymor brys o dan y Cynllun hwn os yw eu taliad benthyciad cyntaf yn hwyr ac nad yw wedi cyrraedd erbyn dechrau'r tymor o dan sylw. Mater i'r Sefydliad dan sylw yw penderfynu ar swm y benthyciad byrdymor sydd i'w ddyfarnu i fyfyrwr cymwys, ond argymhellir na ddylai fod yn fwy na swm sy'n cyfateb i bedair wythnos o daliadau benthyciad. Efallai y bydd amgylchiadau eraill hefyd lle y bydd Sefydliadau am asesu i ba raddau y byddai'n fuddiol cynnig benthyciad byrdymor.

### **Bwrsariau**

**27.** Gall Sefydliad ddefnyddio hyd at uchafswm o 10% o'r holl gyllid a ddyrannwyd iddo o dan y Cynllun hwn i ddarparu cymorth i fyfyrwyr cymwys ar ffurf bwrsariau. Caniateir i fwrsariau o'r fath gael eu rhoi ar gael i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig llawnamser a rhan-amser sy'n gymwys. Os bydd Sefydliad yn penderfynu neilltuo cyllid ar gyfer bwrsariau o'r fath, dylai'r wybodaeth a ddarperir i'r myfyriwr nodi'n glir y meini prawf y bydd y symiau hynny'n seiliedig arnynt, a sut y bydd myfyrwyr a fydd yn cael y bwrsariau hynny yn cael eu hadnabod a'u hasesu.

## **RHAN 5 – PENDERFYNU YNGHYLCH TALIADAU**

### **Ceisiadau am daliadau**

**28.** Rhaid i Sefydliadau werthuso ceisiadau am gyllid o dan y Cynllun hwn fesul achos. Ym mhob achos, rhaid i'r Sefydliadau asesu cais myfyriwr ar sail y

dystiolaeth a ddarperir gan y myfyriwr a'i amgylchiadau unigol.

### **Ystyried cyllid o ffynonellau eraill wrth asesu a yw myfyriwr yn gymwys**

**29.** Wrth asesu a yw myfyriwr yn gymwys o dan y Cynllun hwn, dylai Sefydliadau bwysu a mesur a yw'n briodol ystyried unrhyw fwrserïau yn ôl disgrisiwn y mae wedi eu dyfarnu o'r blaen i'r myfyriwr; naill ai ar sail cyrhaeddiad neu yn dilyn prawf modd. Dylent ystyried hefyd a yw'r myfyriwr yn cael unrhyw fwrserïau neu gymelliannau ariannol i hyfforddi o ffynonellau eraill sy'n gysylltiedig â chyrsgiau penodol, er enghraifft, cymelliannau sy'n gysylltiedig â'r GIG a hyfforddiant athrawon.

### **Cyfraniad rhieni/partner**

**30.** Dylai Sefydliadau gofio na fydd cyfraniadau rhieni neu bartner gymaint â'r disgwyl efallai, a hynny am amrywiaeth o resymau gan gynnwys anawsterau ariannol ac ymddieithrio o fewn y teulu.

## **RHAN 6 – PROSES AU: Y RHYNGWYNEB RHWNG GWEINIDOGION CYMRU A SEFYDLIADAU**

### **Talu Sefydliadau**

**31.** Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid o dan y Cynllun hwn i Sefydliadau ar ôl cael cadarnhad ysgrifenedig bod y Sefydliadau yn derbyn telerau ac amodau'r Cynllun hwn.

**32.** Swm y cyllid sydd i'w dalu i Sefydliad fydd y swm sydd wedi ei ddyrannu i'r Sefydliad hwnnw gan Weinidogion Cymru.

### **Cyfrifon banc**

**33.** Rhaid bod gan Sefydliadau gyfrif banc ar wahân, sy'n ennill llog, y mae'n rhaid talu'r cyllid hwn i mewn iddo.

### **Llog a gronnir**

**34.** Caniateir i'r llog ar y cyllid hwn gael ei dalu i fyfyrwyr cymwys, fel rhan o'r broses arferol o ddyrannu'r adnoddau sydd ar gael, neu gael ei ddefnyddio i dalu costau hysbysebu neu weinyddu, neu ei ddefnyddio i dalu costau archwilio.



### **Arian na chaiff ei wario**

**35.** Ar ddiwedd y cyfnod y mae'r Cynllun hwn yn ymwneud ag ef, caiff Sefydliadau gario ymlaen hyd at 10% o'r holl arian nad yw wedi ei wario a'r llog a geir o dan y Cynllun hwn, heb gyfeirio at Weinidogion Cymru.

**36.** Dim ond mewn perthynas â chynllun caledi dilynol a gaiff ei sefydlu gan Weinidogion Cymru y caniateir defnyddio unrhyw arian a llog a gaiff eu cario ymlaen o dan baragraff 33.

**37.** Rhaid i weddill unrhyw arian sydd heb ei wario ac unrhyw log a ddelir gan Sefydliad mewn cysylltiad â'r Cynllun hwn (sy'n fwy na'r hyn a gyfrifir o dan baragraff 33 ac sy'n dal heb ei wario ar 31 Awst 2013) gael ei ddychwelyd i'r Adran Addysg a Sgiliau erbyn 30 Tachwedd 2013 fan bellaf.

**38.** At ddibenion paragraff 33, mae'r ffigur o 10% i'w gyfrifo drwy gyfeirio at swm y dyraniad ar gyfer 2012/13 i'r Sefydliad, ynghyd ag unrhyw arian a gariwyd ymlaen o'r blaen gan y Sefydliad ac unrhyw log a enillwyd ar y swm hwnnw a'r arian hwnnw.

### **Costau hysbysebu a gweinyddu**

**39.** Caiff Sefydliadau ddefnyddio hyd at 3% o'r holl gyllid a ddyrannwyd iddynt o dan y Cynllun hwn neu £525, pa swm bynnag sydd fwyaf, i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei hysbysebu a'i weinyddu'n effeithiol.

### **Atebolrwydd**

**40.** Ystyrir mai Is-Ganghellor neu Brif Swyddog Gweithredol y Sefydliad sy'n gyfrifol am wneud y canlynol:

- (1) rhoi gwybod i Gorff Llywodraethu'r Sefydliad am ei gyfrifoldebau o dan y Cynllun hwn;
- (2) sicrhau bod y modd y mae'r Sefydliad yn defnyddio'r cyllid a ddyrannwyd iddo yn gyson â dibenion y Cynllun ac y cydymffurfir â thelerau ac amodau'r Cynllun hwn; a
- (3) cymryd y camau hynny y caiff Gweinidogion Cymru fynnu o bryd i'w gilydd eu bod yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod system o fesurau rheoli ariannol mewn grym i alluogi'r Sefydliad i gyflawni ei rwymedigaethau ariannol.

### **Darparu cyfrifon a gwybodaeth ychwanegol**

**41.** Rhaid i Sefydliadau sicrhau y caiff cyfrifon eu harchwilio er mwyn ardystio bod y cyllid a ddyrannwyd, a'r llog a gronnwyd mewn cysylltiad â'r cyllid hwnnw, wedi eu defnyddio yn unol â'r Cynllun hwn.

**42.** Rhaid i Sefydliadau sicrhau bod gwybodaeth am eu cyfrifon archwiliedig ar gael i Weinidogion Cymru pan fyddant yn gofyn amdani.

**43.** Dim ond at y dibenion a nodir yn y Cynllun hwn, neu ar gyfer taliadau pellach y mae'n rhaid eu cofnodi yn yr un modd â thaliadau gwreiddiol, y caiff Sefydliadau ddefnyddio ad-daliadau a wneir gan fyfyrwyr mewn cysylltiad â benthyciadau.

## **RHAN 7 – PROSESAU: Y RHYNGWYNEB RHWNG SEFYDLIADAU A MYFYRWYR**

### **Taliadau i fyfyrwyr**

**44.** Rhaid i Sefydliadau ymdrin â cheisiadau myfyrwyr yn brydlon, gan gofio dibenion y Cynllun hwn ac amgylchiadau sy'n arwain at galedi ariannol.

**45.** Ni chaniateir i Sefydliadau ymrwymo i wneud dyfarniadau flwyddyn ar ôl blwyddyn i fyfyrwyr.

**46.** Caiff Sefydliadau gyuno ar daliadau i fyfyrwyr cymwys o dan y Cynllun hwn mewn egwyddor cyn i gwrs y myfyriwr cymwys ddechrau, er na ellir talu'r arian mewn gwirionedd nes bydd y myfyriwr wedi dechrau'r cwrs.

**47.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys o dan y Cynllun hwn naill ai ar ffurf cyfandaliad neu ar ffurf rhandaliadau.

**48.** Dylai Sefydliadau ystyried unrhyw God Ymarfer a ddyroddir o dro i dro gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn cysylltiad â'r gofynion a osodir gan Bennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### **Taliadau ac eithrio'r rhai a wneir yn uniongyrchol i'r myfyriwr / symiau sy'n ddyledus i Sefydliad**

**49.** Mewn cysylltiad â phrynu offer, caiff Sefydliadau benderfynu peidio â thalu cyllid o dan y Cynllun hwn yn uniongyrchol i fyfyriwr cymwys. Yn hytrach caiff Sefydliadau ddewis prynu'r offer hynny ar ran y myfyriwr hwnnw, ni waeth a fydd yr offer dan sylw'n dod yn eiddo wedyn i'r myfyriwr ynteu'n cael eu rhoi ar fenthyg i'r myfyriwr a'u cadw wedyn gan y Sefydliad (gweler paragraff 10 hefyd).

**50.** Caiff Sefydliadau ddefnyddio'r Cynllun hwn i adalu eu hunain yn uniongyrchol am symiau sy'n ddyledus gan fyfyriwr, ac eithrio yng nghyswllt ffioedd dysgu nad ydynt yn gysylltiedig â Chymorth Ychwanegol at Ffioedd, a chyhyd â bod y myfyriwr dan sylw yn rhoi ei ganiatâd i'r arian gael ei

ddefnyddio yn y ffordd hon (gweler paragraffau 14 ac 16 hefyd).

**51.** Ni chaniateir i Sefydliadau: wneud taliadau o dan y Cynllun hwn ar yr amod bod myfyriwr yn talu unrhyw symiau sy'n ddyledus gan y myfyriwr hwnnw i'r Sefydliad yn gyntaf; mynnu bod myfyriwr yn defnyddio unrhyw daliad o dan y Cynllun hwn i dalu dyled o'r fath; mynnu bod myfyriwr yn gwneud cais am daliad o dan y Cynllun hwn i dalu swm sy'n ddyledus i'r Sefydliad i dalu am lety.

### **Taliadau yn ystod cyfnodau pan fydd astudiaethau wedi eu gohirio**

**52.** Caiff Sefydliad wneud taliadau o dan y Cynllun hwn i fyfyrwyr cymwys sydd wedi gohirio eu hastudiaethau oherwydd rhesymau sy'n ymwneud ag iechyd, yr angen i ofalu am eraill, beichiogrwydd, neu unrhyw amgylchiadau eraill sy'n briodol yn marn y Sefydliad, cyhyd â bod y Sefydliad yn fodlon nad yw'r myfyriwr wedi tynnu'n ôl o'r cwrs neu wedi gadael y cwrs a'i fod yn bwriadu dychwelyd iddo.

### **Apeliadau**

**53.** Rhaid bod gan Sefydliadau weithdrefn apelio gyhoeddedig ar gyfer achosion lle nad yw ceisiadau myfyrwyr am gymorth o dan y Cynllun hwn wedi bod yn llwyddiannus. Dylai'r weithdrefn hon fod yn glir, a rhaid i fyfyrwyr gael gwybod am eu hawl i apelio. Y Sefydliadau sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun hwn sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch cymhwystro myfyrwyr a'r cymorth a ddyfernir. Mater i'r Sefydliadau yw ystyried pob achos yn unigol a dod i benderfyniad ynghylch unrhyw apeliadau; yn unol â'u gweithdrefn gyhoeddedig.

**54.** Dylai Sefydliadau ystyried cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr yn y broses o wneud penderfyniadau.

*Enw*

Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

# YR ATODLEN

## Myfyrwyr Cymwys

### RHAN 1

#### Dehongli

#### 1.—(1) At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr “aelod o deulu” (“*family member*”) (oni nodir fel arall) yw—

- (a) o ran gweithiwr ffin yr AEE, gweithiwr mudol o'r AEE, person hunangyflogedig ffin yr AEE neu berson hunangyflogedig o'r AEE—
  - (i) priod y person neu ei bartner sifil;
  - (ii) disgynyddion uniongyrchol y person neu ddisgynyddion priod neu bartner sifil y person sydd—
    - (aa) o dan 21 oed; neu
    - (bb) yn ddibynyddion y person neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y person; neu
  - (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y person neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y person;
- (b) o ran person cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig ffin y Swistir, person hunangyflogedig ffin y Swistir neu berson hunangyflogedig Swisaidd—
  - (i) priod y person neu ei bartner sifil; neu
  - (ii) plentyn y person neu blentyn priod neu bartner sifil y person;
- (c) o ran gwladolyn o'r UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38—
  - (i) priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu
  - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—
    - (aa) o dan 21 oed; neu
    - (bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;
- (d) o ran gwladolyn o'r UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38—
  - (i) priod neu bartner sifil y gwladolyn;
  - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion

uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—

(aa) o dan 21 oed; neu

(bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu

(iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y gwladolyn neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y gwladolyn;

(e) o ran gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, at ddibenion paragraff 9—

(i) priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu

(ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—

(aa) o dan 21 oed; neu

(bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;

ystyr “Ardal Economaidd Ewropeaidd” (“*European Economic Area*”) yw'r ardal a ffurfir gan y Gwladwriaethau AEE;

ystyr “Cyfarwyddeb 2004/38” (“*Directive 2004/38*”) yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hawl dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teuluoedd i symud ac i fyw'n ddilyffethair yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau;

ystyr “Cytundeb y Swistir” (“*Swiss Agreement*”) yw'r Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a Chyddfederasiwn y Swistir, o'r rhan arall, ar Symud Rhydd Personau a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999(1) ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

ystyr “ffoadur” (“*refugee*”) yw person a gydnabuwyd gan lywodraeth Ei Mawrhydi fel ffoadur o fewn ystyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951 fel y'i hestynnwyd gan y Protocol iddo a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967;

ystyr “gweithiwr” yw “worker” o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd;

ystyr “gweithiwr ffin yr AEE” (“*EEA frontier worker*”) yw gwladolyn o'r AEE—

(a) sy'n weithiwr yn y Deyrnas Unedig; a

---

(1) Gorch. 4904 ac OJ Rhif L114, 30.04.02, t.6.

- (b) sy'n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "gweithiwr mudol o'r AEE" ("*EEA migrant worker*") yw gwladolyn o'r AEE sy'n weithiwr, ac eithrio gweithiwr ffin yr AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gweithiwr Twrcaidd" ("*Turkish worker*") yw gwladolyn Twrcaidd—

- (a) sydd fel arfer yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd; a
- (b) sydd, neu sydd wedi bod, mewn cyflogaeth gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gwladolyn o'r AEE" ("*EEA national*") yw gwladolyn o Wladwriaeth yn yr AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig;

ystyr "gwladolyn o'r UE" ("*EU national*") yw un o wladolion un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw Aelod-wladwriaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;

ystyr "hawl i breswyllo'n barhaol" ("*right of permanent residence*") yw hawl sy'n deillio o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad;

ystyr "person cyflogedig" ("*employed person*") yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr "person cyflogedig ffin y Swistir" ("*Swiss frontier employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sydd—

- (a) yn berson cyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person cyflogedig Swisaidd" ("*Swiss employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson cyflogedig, ac eithrio person cyflogedig ffin y Swistir, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig" ("*self-employed person*") yw—

- (a) o ran gwladolyn o'r AEE, person sy'n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd; neu

- (b) o ran gwladolyn Swisaidd, person sy'n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr "person hunangyflogedig ffin y Swistir" ("*Swiss frontier self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sydd—

- (a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth EEA ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth EEA honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person hunangyflogedig ffin yr AEE" ("*EEA frontier self-employed person*") yw gwladolyn o'r AEE sydd—

- (a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person hunangyflogedig o'r AEE" ("*EEA self-employed person*") yw gwladolyn o'r AEE sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig ffin yr AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig Swisaidd" ("*Swiss self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig ffin y Swistir, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*") yw person ("A" yn y diffiniad hwn)—

- (a) sydd—
- (i) wedi gwneud cais am statws ffoadur, ond sydd o ganlyniad i'r cais hwnnw wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y tybir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar sail diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgrisiwn, er yr ystyrir nad yw A yn gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur; neu
- (ii) heb wneud cais am statws ffoadur, ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan

awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y tybir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgrisiwn;

- (b) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;
- (c) y mae cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros heb ddod i ben neu wedi cael ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben neu fod apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002) mewn cysylltiad â'i hawl i ddod i mewn neu i aros; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod er pan roddwyd caniatâd i A ddod i mewn neu i aros;

ystyr "yr Undeb Ewropeaidd" ("*European Union*") yw tiriogaeth Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd fel y'i cyfansoddir o bryd i'w gilydd;

mae i "wedi setlo" yr ystyr a roddir i "*settled*" gan adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(1);

ystyr "Ynysoedd" ("*Islands*") yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson sydd â gofal am blentyn ac mae "plentyn" ("*child*") i'w ddehongli yn unol â hynny.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person ("A" yn yr is-baragraff hwn) i gael ei drin fel rhywun sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci pe byddai A wedi bod yn preswyllo felly oni bai am y ffaith bod—

- (a) A;
- (b) priod neu bartner sifil A;
- (c) rhiant A; neu
- (d) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn A neu briod neu bartner sifil plentyn A,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci.

---

(1) 1971 p. 77; cafodd adran 33(2A) ei mewnosod gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61).



(4) At ddibenion is-baragraff (3), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci yn cynnwys—

- (a) yn achos aelodau o luoedd rheolaidd y llynges, y fyddin neu'r llu awyr y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o'r cyfryw luoedd; a
- (b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth EEA neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir fel aelodau o'r cyfryw luoedd; ac
- (c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci fel aelodau o'r cyfryw luoedd.

(5) At ddibenion yr Atodlen hon mae ardal—

- (a) nad oedd gynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ond
- (b) sydd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i'r Cynllun hwn ddod i rym wedi dod yn rhan o'r naill neu'r llall, neu o'r ddwy, o'r ardaloedd hyn,

i'w hystyried fel pe bai wastad wedi bod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## RHAN 2

### Categoriâu

#### **Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig**

2.—(1) Person sydd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

- (a) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac eithrio am y rheswm ei fod wedi ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (b) yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig;
- (c) wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson yr ymdrinnir ag ef fel rhywun sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(3).

**3. Person—**

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos lle'r oedd ei breswyllo arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod preswyllo arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

**Ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd**

**4.—(1) Person—**

- (a) sy'n ffoadur;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers i'r person gael ei gydnabod yn ffoadur; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

**(2) Person—**

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â bod yn preswyllo felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; a
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

**(3) Person—**

- (a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil ffoadur;
- (b) ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches, a oedd yn blentyn i'r ffoadur neu'n

blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw;

- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; ac
- (e) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

**Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd**

**5.—(1) Person—**

- (a) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

**(2) Person—**

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw—
  - (i) y cais am loches;
  - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgrisiwn, lle na wnaed cais am loches;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

**(3) Person—**

- (a) sy'n blentyn i berson â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu sy'n blentyn i briod neu i bartner sifil person â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y person â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—
  - (i) y cais am loches; neu
  - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgrisiwn, lle na wnaed cais am loches;

yn blentyn i'r person hwnnw neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;

- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y person â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—
  - (i) y cais am loches; neu
  - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, lle na wnaed cais am loches;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (e) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

**Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd**

**6.—(1) Person—**

- (a) sydd—
  - (i) yn weithiwr mudol o'r AEE neu'n berson hunangyflogedig o'r AEE;
  - (ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd;
  - (iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (i) neu (ii);
  - (iv) yn weithiwr ffin yr AEE neu'n berson hunangyflogedig ffin yr AEE;
  - (v) yn berson cyflogedig ffin y Swistir neu'n berson hunangyflogedig ffin y Swistir; neu
  - (vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (iv) neu (v);
- (b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys os yw'r person sy'n gwneud cais am gymorth o dan y Cynllun hwn yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o is-baragraff (1).

**7. Person—**

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;

- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 12 o Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1612/68 ar ryddid gweithwyr i symud<sup>(1)</sup>, fel y'i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE.

**Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo yn rhywle arall**

**8.—(1) Person—**

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;
- (b) a oedd yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn union cyn gadael y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academiaidd gyntaf mewn gwirionedd yn dechrau;
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (e) mewn achos lle'r oedd ei breswyllo arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod preswyllo arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (d).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswyllo os yw'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir) neu'n berson sydd â hawl i breswyllo'n barhaol sydd yn y ddau achos wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu, yn achos person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd â hawl i breswyllo'n barhaol, os yw'n mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir y mae'n wladolyn iddi neu y

---

(1) OJ Rhif L257, 19.10.1968, t.2 (OJ/SE 1968 (II) t.475).

mae'r person y mae'n aelod o deulu gwladolyn iddi mewn perthynas ag ef yn wladolyn iddi.

### **Gwladolion o'r UE**

#### **9.—(1) Person—**

- (a) sydd naill ai—
  - (i) yn wladolyn o'r UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac eithrio person sydd yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig nad yw wedi arfer hawl i breswyllo; neu
  - (ii) yn aelod o deulu person o'r fath;
- (b) wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson yr ymdrinnir ag ef fel rhywun sy'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(3).

(3) Os yw gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu gwladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1) bod rhywun yn wladolyn o'r UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

#### **10.—(1) Person—**

- (a) sy'n wladolyn o'r UE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos lle'r oedd ei breswyllo arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg

lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod preswyllo arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Os yw gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1) bod rhywun yn wladolyn o'r UE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

## **Plant gwladolion Swisaidd**

### **11. Person—**

- (a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos lle'r oedd ei breswyllo arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod preswyllo arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

## **Plant gweithwyr Twrcaidd**

### **12. Person—**

- (a) sydd yn blentyn i weithiwr Twrcaidd;
- (b) sydd fel arfer yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci drwy'r cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

